# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 23 Hydref 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 165(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip yn ateb cwestiynau ar ran y Prif Weinidog.

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cymru Iachach: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gronfa Trawsnewid

(45 munud)

**Dogfen Ategol**

Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## 4 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Cynllun Gweithredu Technoleg Gymraeg

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Fand Eang

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd: Perfformiad Ailgylchu Cymru, Adeiladu Sylfeini Economi Gylchol

(45 munud)

**Dogfen Ategol**

Ystadegau – Adroddiad rheoli gwastraff trefol awdurdod lleol

## 7 Dadl: Diwygio'r Gwasanaeth Prawf

(60 munud)

**NDM6831** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cynigion ar gyfer Diwygio Gwasanaethau Prawf yng Nghymru.

**Dogfen Ategol**

Strengthening probation, building confidence *(Saseneg yn unig)*

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi y bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrofiannaeth EM yng Nghymru yn adeiladu ar y trefniadau unigryw sydd ganddo eisoes yng Nghymru drwy ei gyfarwyddiaeth carchardai a phrofiannaeth sefydledig, i adlewyrchu cyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cymru yn well ac adeiladu ar bartneriaethau lleol presennol.

**Gwelliant 2** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cytuno â Chymdeithas Genedlaethol y Swyddogion Prawf bod preifateiddio gwasanaethau prawf wedi bod yn fethiant.

**Gwelliant 3** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ddatganoli cyfiawnder troseddol i Gymru er mwyn creu gwasanaeth prawf a gaiff ei gynnal yn gyhoeddus sy'n gwasanaethu buddiannau ein cymunedau.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 24 Hydref 2018

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 18/10/2018 i'w hateb ar 23/10/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifenyddion y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Hefin David** *Caerffili*

1 OAQ52839

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi ac annog gweithio hyblyg yng Nghymru?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

2 OAQ52834

**(e)**

Pa drafodaethau diweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch integreiddio gofal cymdeithasol ac iechyd yng ngorllewin Cymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

3 OAQ52836

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu a hyrwyddo hawliau pobl ag anableddau yng Nghanol De Cymru?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

4 OAQ52808

**(e)**

Pa fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i wella canlyniadau canser yr ysgyfaint dros y 12 mis nesaf?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

5 OAQ52833

**(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella hawliau plant yng Nghymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

6 OAQ52838

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd safleoedd hanesyddol yng Nghymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

7 OAQ52832

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol y bont rheilffordd ar draws yr A5114 yn Llangefni?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

8 OAQ52820

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y setliad llywodraeth leol diweddar?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

9 OAQ52805

**(e)**

Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran gwella'r seilwaith trafnidiaeth yn Sir Fynwy?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

10 OAQ52816

**(e)**

Sut y bydd Parc Rhanbarthol arfaethedig y Cymoedd o fudd i economi Islwyn?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

11 OAQ52835

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r goblygiadau i Gymru o'r cyfarfod rhwng Llywodraeth y DU ac arweinwyr yr UE ym Mrwsel ar 17 Hydref 2018?

**Steffan Lewis** *Dwyrain De Cymru*

12 OAQ52804

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu economaidd yn ne-ddwyrain Cymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

13 OAQ52840

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith Brexit heb fargen ar wasanaethau iechyd?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

14 OAQ52809

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector addysg bellach yng Ngogledd Cymru?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

15 OAQ52813

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o lwyddiant polisïau Llywodraeth Cymru o ran lliniaru amddifadedd?

# Eitem 2

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 6 Tachwedd 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Casgliadau'r Rhaglen Garlam Annibynnol i Adolygu Galwadau Oren (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Diwygio Trefniadau Llywodraethu a Chyllid Awdurdodau Tân ac Achub (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – y wybodaeth ddiweddaraf am y Mesurau Arbennig (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Cofio ein Lluoedd Arfog a Chyflawni ar gyfer Cymuned ein Lluoedd Arfog (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ifori (15 munud)
- Dadl: Egwyddorion cyffredinol y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r penderfyniad ariannol ynghylch y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru) (5 munud)
- Dadl: Adolygiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2017/18 (60 munud)

**Dydd Mercher 7 Tachwedd 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol (60 munud)
- Cydraddoldeb a Gadael yr Undeb Ewropeaidd – Canfyddiadau ar y cyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro) (30 munud)

**Dydd Mawrth 13 Tachwedd 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Agwedd Genedlaethol at Ddysgu Proffesiynol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol: Gwella Canlyniadau i Blant: Lleihau'r Angen i Blant fynd i Ofal, a Gwaith Grŵp Ymgynghorol y Gweinidog (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig:Lles Anifeiliaid (30 munud)

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cynlluniau Cyflawni ar gyfer y Gaeaf (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud):
    - Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018
    - Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apelau) (Cymru) 2018
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2017-18 (60 munud)

**Dydd Mercher 14 Tachwedd 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (45 munud)
- Cwestiynau i Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20 (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei Ymchwiliad i'r Paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl fer - Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 20 Tachwedd 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diwygio Gwasanaethau Deintyddol (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Symudedd Myfyrwyr Rhyngwladol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog dros y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Yr Adolygiad o Gyllid Addysg Bellach (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Buddsoddi mewn rhaglenni ymyrraeth gynnar a gwaith trawslywodraethol i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc (30 munud)
- Dadl: Sut y gallwn greu system ynni carbon isel i Gymru? (60 munud)

**Dydd Mawrth 21 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl Aelod o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Creu'r Diwylliant Cywir (60 munud)
- Dadl ar Ddeiseb P-05-828 Rhagdybiaeth o Blaid Ysgolion Gwledig (60 munud)
- Dadl fer - Rhiannon Passmore (Islwyn) (30 munud)